# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG**

Dyddiad ac Amser

**DYDD LLUN, 24AIN HYDREF, 2022**

***DILYN YMLAEN O'R PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

***I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni***

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679 878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 14/10/2022)

# PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG

## AELODAETH (15)

## Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

Annwen Hughes
Linda Ann Jones
Rheinallt Puw
Elfed Williams
Gwynfor Owen
Gareth Tudor Jones
Edgar Wyn Owen
Huw Rowlands
Arwyn Herald Roberts
Sedd wag

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

Eryl Jones-Williams
Angela Russell
Anwen J. Davies
Gareth Williams
John Brynmor Hughes

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION 4

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 27 Mehefin 2022 fel rhai cywir

## 5. COFNODION ISBWYLLGORAU TRWYDDEDU 5 - 16

Cyflwyno, er gwybodaeth, cofnodion yr Is Bwyllgor Trwyddedu Canolog a gynhaliwyd ar y dyddiau canlynol:

a) 27-06-22
b) 29-07-22

## PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG 27-06-22

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr:** Annwen Hughes, Gareth Tudor Jones, Linda Ann Jones, Edgar Wyn Owen, Rheinallt Puw, Huw Rowlands, Elfed Williams, Gwynfor Owen, Arwyn Herald Roberts, Eryl Jones-Williams, Gareth Williams, Angela Russell, John Brynmor Hughes ac Anwen Davies

**Swyddogion:** Iwan Evans (Pennaeth Adran Gyfreithiol), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**1. ETHOL CADEIRYDD AR GYFER 2022/23**

**PENDERFYNWYD AIL - ETHOL Y CYNGHORYDD ANNWEN HUGHES YN GADEIRYDD AR GYFER 2022/23**

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD AR GYFER 2022/23**

**PENDERFYNWYD ETHOL Y CYNGHORYDD ELFED WILLIAMS YN GADEIRYDD AR GYFER 2022/23**

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Alan Jones Evans

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**5. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**6. COFNODION CYFARFOD DIWETHAF**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd 6ed Rhagfyr 2021 fel rhai cywir

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am 10:35am

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG 27-06-22

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr: Annwen Hughes (Cadeirydd), Angela Russell ac Edgar Owen**

**Swyddogion: Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)**

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan yr ymgeisydd Mr Rui Brasil a'r Cynghorydd Dilwyn Morgan (Aelod Lleol)

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAIS AM DRWYDDED EIDDO – THE OLD WIVES' TALE, 21 HEOL TEGID, Y BALA, LL23 7EH**

**Ymatebwyr:** Mr Mark Mortimer (Swyddog Gorfodaeth Gwarchod y Cyhoedd)
Mr Adrian Angel (Gwasanaeth Tan Gogledd Cymru)

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y Cadeirydd y byddai gan bob parti hawl i hyd at 5 munud i gyflwyno eu sylwadau

a) **Adroddiad yr Adran Trwyddedu**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu ar gais am drwydded eiddo ar gyfer bwyty gyda hawl i werthu alcohol gyda phrydau i'w gweini gyda bwyd ar yr eiddo yn unig rhwng 12 o'r gloch hyd at 11yh, saith diwrnod yr wythnos. Gwnaed cais am hawl i chwarae cerddoriaeth wedi ei recordio a chynnal adloniant byw o 7 y bore tan 11 yr hwyr, saith diwrnod yr wythnos.

Nodwyd bod gan Swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu tystiolaeth ddigonol bod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol. Cyfeiriwyd at y mesurau yr oedd yr ymgeisydd yn ei argymell i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu ac amlygwyd y byddai'r mesurau hyn yn cael eu cynnwys ar y drwydded.

Tynnwyd sylw at yr ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori. Nodwyd na dderbyniwyd gwrthwynebiad i'r cais ond bod Adran Gwarchod y Cyhoedd wedi argymell amodau rheoli sŵn. Cadarnhawyd bod yr ymgeisydd yn fodlon derbyn yr amodau hyn ac yn barod i'w hychwanegu ar y drwydded. Argymhellwyd i'r Pwyllgor ganiatáu'r cais yn unol â gofynion Deddf Drwyddedu 2003.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

- Rhoi cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu

- Gwahodd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais
- Rhoi cyfle i'r ymgynghorai gyflwyno eu sylwadau
- Gwahodd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau
- Rhoi cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded.
- Rhoi cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai

Nid oedd yr ymgeisydd yn bresennol i gyflwyno ei gais ar lafar

Manteisiodd yr ymgynghorai oedd yn bresennol ar y cyfle i ymhelaethu ar sylwadau a gyflwynwyd ganddynt drwy lythyr.

Mark Mortimer

- Trafodaethau wedi eu cynnal gyda'r ymgeisydd – y cais wedi ei dacluso ers ei gyflwyno
- Yr ymgeisydd wedi cytuno i dderbyn amodau rheoli sŵn ar yr eiddo yn ogystal â chwtogi oriau adloniant rheoledig
- Bod yr ymgeisydd wedi cytuno cyfyngu ar yr oriau cerddoriaeth byw ac y byddai yn gwneud cais am Rybudd Digwyddiad Dros Dro petai angen unrhyw ymestyniad achlysurol

Adrian Angel

- Dim pryderon diogelwch y cyhoedd, ond cais i'r ymgeisydd gwblhau asesiad risg, ail wneud cynllun llawr ar ôl gosod larymau tân a chlirio'r safle - ni fyddai hyn yn amharu ar benderfyniad yr is-bwyllgor

Cyng. Dilwyn Morgan (Aelod Lleol) - sylwadau wedi eu cyflwyno drwy e-bost

- Ymddiheuro nad oedd yn gallu bod yn bresennol
- Nodi ei gefnogaeth lwyr i'r drwydded yn Old Wives' Tale.
- Nad oedd unrhyw broblem sŵn yn aflonyddu ar y trigolion gerllaw o gwbl.

Ymneilltuodd yr ymatebwyr a'r Rheolwr Trwyddedu o'r cyfarfod tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais

Wrth gyrraedd y penderfyniad ystyriodd yr Is-bwyllgor ffurflen gais yr ymgeisydd, sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y partïon â diddordeb, adroddiad y Swyddog Trwyddedu ynghyd â sylwadau llafar pob parti yn bresennol yn y gwrandawiad. Ystyriwyd Polisi Trwyddedu'r Cyngor a chanllawiau'r Swyddfa Gartref.

Roedd yr holl ystyriaethau yn cael eu pwyso a'u mesur yn erbyn yr amcanion trwyddedu o dan y Ddeddf Trwyddedu 2003, sef:

i. Atal trosedd ac anhrefn
ii. Atal niwsans cyhoeddus
iii. Sicrhau diogelwch cyhoeddus
iv. Gwarchod plant rhag niwed

Diystyrwyd sylwadau ddaeth i law i'r graddau eu bod yn amherthnasol i'r amcanion hyn. Diolchwyd i bawb am gyflwyno sylwadau ar y cais. Rhoddodd yr Is-bwyllgor ystyriaeth briodol i'r holl sylwadau.

**PENDERFYNWYD**

- **Caniatáu y cais diwygiedig**
- **Ymgorfforir y materion sydd wedi eu rhagnodi yn Atodlen Weithredol (Rhan M) y cais fel amodau ar y drwydded**

- **Ymgorfforir fel amodau'r drwydded yr amodau rheoli sŵn a argymhellwyd gan Warchod y Cyhoedd**

**Rhoddwyd y drwydded fel a ganlyn:**

**1. Oriau agor: Sul-Sadwrn: 07:00 – 23:00**
**2. Cerddoriaeth fyw tu mewn: Sul-Sadwrn: 19:00 – 22:30****
**3. Cerddoriaeth wedi recordio tu mewn: Sul-Sadwrn: 12:00 – 23:00**
**4. Cyflenwi alcohol i yfed ar ac oddi ar yr eiddo: Sul-Sadwrn 12:00 – 23:00**

**** wedi eu cyfyngu i unrhyw bedair noson o fewn mis calendar.**

Rhesymau

Rhoddwyd ystyriaeth arbennig i sylwadau'r Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd ynglŷn a darpariaeth cerddoriaeth byw ac wedi ei recordio ar yr eiddo. Cytunodd yr ymgeisydd i'r addasiadau canlynol i'r cais:

- Uchafswm o bedair noson o gerddoriaeth byw fesul mis calendar
- Cerddoriaeth acwstig yn unig i'w chwarae drwy system PA'r adeilad - oriau penodol 19:00 i 22:30 ar gyfer y nosweithiau hyn
- Dim cerddoriaeth i'w chwarae yn allanol

O dan yr amgylchiadau roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod y cais yn gydnaws â'r pedwar amcan trwyddedu, ac felly caniatawyd y cais.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i bawb oedd wedi cyflwyno sylwadau ysgrifenedig. Ategwyd bod gan bob parti i'r cais yr hawl i gyflwyno apêl yn Llys Ynadon Caernarfon yn erbyn penderfyniad yr Is-bwyllgor. Dylid cyfeirio unrhyw apêl o'r fath drwy roi rhybudd o apêl i'r Prif Weithredwr, Llys Ynadon Llandudno, Llandudno, o fewn cyfnod o 21 diwrnod gan gychwyn â'r dyddiad y bydd yr apelydd yn derbyn llythyr (neu gopi ohono) yn cadarnhau'r penderfyniad.

Dechreuodd y cyfarfod am 12:35 a daeth i ben am 13:00

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG 29-07-22

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr: Edgar Owen (Cadeirydd), Gareth Morris Jones a Huw Rowlands**

**Swyddogion: Sïon Huws (Cyfreithiwr), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)**

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd John Brynmor Hughes, Wendy Lloyd Jones a John Gwilym Jones (preswylwyr lleol) ar gyfer eitem 4, a’r Cynghorydd Gwynfor Owen (Aelod Lleol) ar gyfer eitem 5

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i’w nodi

**3. MATERION BRYS**

Dim i’w nodi

**4. CAIS AM DRWYDDED EIDDO – Land and Seafood Bar, Abersoch Land and Sea, Royal Garage, Abersoch**

**Ar ran yr eiddo:** Mr Stephen Cliff (Ymgeisydd), Diane Robertson ( Gweithiwr Land and Sea a Phreswylydd Lleol)

**Ymatebwyr:** Elizabeth Williams (Heddlu Gogledd Cymru)
Swyddogion Cyngor Gwynedd: Keira Sweeney (Rheolwr Cynllunio), Alun Evans (Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd (Lles, Iechyd a Diogelwch) a Ffion Muscroft (Swyddog Gwarchod y Cyhoedd)
Einir Wyn (Clerc Cyngor Cymuned Llanengan)
Preswylwyr Lleol: Mr Wyn Williams, Mr Robert Kennedy, Mrs Margot Jones a Mr Martin Turtle

Croesawodd y Cadeirydd bawb i’r cyfarfod. Amlygodd y Cadeirydd y byddai gan bob parti hawl i hyd at 5 munud i gyflwyno eu sylwadau

a) **Adroddiad yr Adran Trwyddedu**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu ar gais am drwydded eiddo ar gyfer bwyty gyda hawl i werthu alcohol a gweini bwyd o fan arlwyo ar lecyn tu allan i adeilad busnes gwerthu a thrwsio cychod rhwng 11:00 hyd at 21:20, saith diwrnod yr wythnos ynghyd a hanner awr yn ychwanegol er mwyn rhoi cyfle i gwsmeriaid orffen a gadael. Adroddwyd na wnaed cais am yr hawl i gynnal adloniant, ond petai'r drwydded yn cael ei chaniatáu bydda’r ymgeisydd yn gallu manteisio ar eithriadau Deddf Cerddoriaeth Fyw 2012 i chwarae cerddoriaeth chwyddedig tan 22:00

Nodwyd bod gan Swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu tystiolaeth ddigonol bod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol. Cyfeiriwyd at y mesurau yr oedd yr ymgeisydd yn ei argymell i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu ac amlygwyd y byddai'r mesurau hyn yn cael eu cynnwys ar y drwydded.

Tynnwyd sylw at yr ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori. Nodwyd bod amryw o wrthwynebiadau wedi eu derbyn i'r cais mewn perthynas â'r pedwar amcan trwyddedu - Atal trosedd ac anhrefn, atal niwsans cyhoeddus, sicrhau diogelwch cyhoeddus a gwarchod plant rhag niwed.

Argymhellwyd i'r Pwyllgor wrthod y cais yn unol â gofynion Deddf Drwyddedu 2003 ac am y rhesymau isod yn benodol:

- Bod y safle agored mewn lleoliad peryglus ar bwys priffordd a chyffordd brysur, ac ar gwrtil busnes cychod prysur
- Na fyddai'n bosib i'r ymgeisydd atal y peryglon i gwsmeriaid ac eraill oherwydd trafnidiaeth ceir a thractorau hefo trelars a chychod drwy fesurau rheoli oherwydd nad yw'r safle yn ddiogel nac yn addas fel eiddo trwyddedig.
- Na fyddai'n bosib rheoli sŵn o'r lleoliad agored hwn; er gwaethaf y mesurau sydd yn cael eu cynnig gan yr ymgeisydd.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

- Rhoi cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu
- Gwahodd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais
- Rhoi cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded.
- Rhoi cyfle i'r Rheolwr Trwyddedu ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded
- Rhoi cyfle i'r ymgynghorai gefnogi unrhyw sylwadau ysgrifenedig
- Gwahodd y Rheolwr Trwyddedu a'r ymgeisydd i ymateb i'r sylwadau a chrynhoi eu hachos

Wrth ymhelaethu ar y cais, nododd yr ymgeisydd:

- Bod blaen yr adeilad yn wag ac yn lleoliad addas ar gyfer cynnig bwyd a diod i gwsmeriaid
- Bod asesiad risg wedi ei gwblhau – lle parcio wedi ei drefnu a ffens i sefydlu ffin wedi ei osod
- Bod y fenter ar gyfer gwyliau'r haf yn unig – yn fudd i'r economi leol ac yn elfen ychwanegol i'r busnes
- Ei fod gyda phrofiad o redeg bwytai yn Lerpwl, Manceinion a Chaer. Y bwyty dan sylw (wedi bod yn weithredol am bedair wythnos o dan Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro) yn darparu bwyd o safon, gyda ffocws ar alcohol i'w weini gyda'r bwyd yn unig
- Ei fod, yn dilyn gwrandawiad Hysbysiad Dros Dro (15-07-22), wedi gosod croesfan i gerddwyr ac yn bwriadu cyfaddawdu gydag amodau pellach yn ymwneud a diogelwch y cyhoedd.
- Bod modd ychwnwaegu 'cable ropes' i'r ffens i atal plant rhag gwthio drwyddo
- Ei fod wedi derbyn nifer o e-byst yn cefnogi'r fenter
- Nad oedd tystiolaeth mai'r bwyty oedd yn gyfrifol am sŵn a phroblemau traffig - dau fwyty arall gerllaw
- Ei fod yn gobeithio cynnal trafodaethau gyda'r Adran Cynllunio ynglŷn â'u pryderon
- Nad oedd cerddoriaeth yn cael ei chwarae ar y safle
- Bod bwytai eraill yn y pentref yn ymylu ar lon beryg heb rwystrau diogelwch
- Bod y safle ar dir preifat ac felly rheolaeth drwy fesurau yn ei wneud yn lleoliad diogelach nag eraill
- Gweini bwyd yn dod i ben am 21:30

- Dim yn rhagweld problemau trosedd ac anrhefn – dim yn fwyty sydd yn apelio at gwsmeriaid stwrllyd
- Bod staff yn gwisgo siaced lachar (high viz) ar y safle i gynorthwyo cwsmeriaid i groesi'r ffordd yn ddiogel
- Bod gyrwyr y tractorau yn ymwybodol o'r terfyn cyflymder 5mya sydd ar y safle

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chydymffurfio a'r amcanion trwyddedu o ddiogelu'r cyhoedd ac atal plant rhag niwed (fydd yn gweld tractorau a chychod fel atyniad naturiol iddynt), nododd yr ymgeisydd bod gyrwyr y tractorau wedi derbyn hyfforddiant ychwanegol a diweddariad ar yr asesiad risg a adolygwyd. Ategodd bod llinellau melyn wedi eu peintio i atal parcio, bod llwybr pwrpasol i groesi i'r toiledau, bod staff yn monitro'r safle a bwriad ychwanegu ceblau i'r ffens i wella diogelwch.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â niferoedd staff sydd yn cael eu cyflogi yn y bwyty, nodwyd bod chwe aelod yn ystod y dydd a phedwar ychwanegol yn ymuno gyda'r nos ar yr amseroedd prysur. Ategwyd bod hyn yn ychwanegol i'r nifer staff sydd yn gweithio yn Land and Sea ac yn monitro'r tractorau

Mewn ymateb i sylw gan y Rheolwr Trwyddedu oedd yn nodi 'nad oedd dim cerddoriaeth yn golygu dim sŵn', nododd yr ymgeisydd nad oedd bwriad bod yn agored ar ôl 21:30 ac nad oedd eisiau aflonyddu trigolion lleol. Ategodd bod mwyafrif o'r cwsmeriaid yn gwsmeriaid Land and Sea oedd yn bachu cyfle ar ddiwedd dydd i gyfarfod a chael sgwrs dros fwyd.

Manteisiodd yr ymgynghorai oedd yn bresennol ar y cyfle i ymhelaethu ar sylwadau a gyflwynwyd ganddynt drwy lythyr.

Elizabeth Williams – Heddlu Gogledd Cymru
- Ymgeisydd wedi ymateb i bryderon yr Heddlu drwy osod ffens gan dderbyn bod gwifren ychwanegol yn cael ei hychwanegu i leihau'r gwagle yn y ffens. Er hynny, ystyriwyd y byddai plant yn gallu gwasgu drwy'r gofod ac y byddai strwythur mwy sylweddol yn fwy derbyniol. Hyn yn fater cynllunio.

Keira Sweeney – Rheolwr Cynllunio, Cyngor Gwynedd
- Mai anghyffredin iawn yw sefyllfa lle bydd y Gwasanaeth Cynllunio yn gwrthod cais trwyddedu - y sefyllfa yn un siomedig iawn
- Bod cais wedi ei wrthod yn 2021 am gaffi / bar sefydlog am nifer o resymau
- Er Deddfau gwahanol i Drwyddedu a Chynllunio yr ystyriaethau yn debyg - yn y sefyllfa yma, sicrhau diogelwch y cyhoedd mewn perthynas â chynnal gweithgareddau e.e. diffyg palmant, yw'r prif ystyriaeth
- Derbyn a nodi ymdrechion o fewn y safle, ond angen gwelliannau tu hwnt i berchnogaeth Land and Sea
- Yn gwrthod y cais ar sail diffyg parcio, y safle o fewn parth llifogydd, y safle yn gyn safle garej a dim sicrwydd bod y tanciau wedi eu gwagu
- Cadarnhau bod cais cynllunio pellach wedi ei dderbyn i leoli faniau symudol ar y safle

Alun Evans – Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd (Lles, Iechyd a Diogelwch)
- Rhaid rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch y cyhoedd
- Bod Land and Sea yn defnyddio ardal ehangach na'r safle
- Yn wahanol i fwytai eraill, y busnes wedi ei leoli o fewn iard gychod prysur - y risgiau yn amlwg
- Er derbyn asesiad risg, nid yw'n ddigonol
- Er gosod croesfan a ffens, nid yw'n ddigonol i warchod staff a chwsmeriaid

Ffion Muscroft - Swyddog Gwarchod y Cyhoedd

- Amlygu pryderon am sŵn yn deillio o'r safle – sŵn cerddoriaeth a sŵn pobl
- Ers caniatáu Hysbysiad Digwyddiad dros dro, yr adran wedi derbyn cwynion am y gerddoriaeth - derbyn bod y seinydd wedi mynd, ond pryderon am sŵn cymdeithasol yn parhau
- Anodd rheoli lleisiau – cynllun y safle yn nodi lle i tua 52 o bobl – hyn yn sŵn sylweddol o ystyried bod tai cyfagos i'r safle

Cyngor Cymuned

- Amlygu pryder am ddiogelwch y cyhoedd a sŵn
- Y gyffordd yn un brysur - dau fusnes arall gerllaw ynghyd a mynediad i stad o dai
- Nid yw garej tractorau a chychod yn cyd-fynd a lle i weini bwyd a diod
- Prysurdeb garw yn yr ardal yma
- Bod cais cynllunio eisoes wedi ei wrthod
- Rhaid ystyried effaith y bwriad ar drigolion lleol

Mr Wyn Williams

- Yn hanesyddol, bar wedi bod ar y safle ac wedi ei gau ar apêl
- Dim cydnabyddiaeth i'r amgylchedd
- Diffyg cydymffurfio gyda pholisïau trwyddedu – yr ymgeisydd gydag agwedd mai ar gyfer eraill mae rheolaeth a deddfau yn berthnasol
- Bod yr argymhelliad i wrthod yn gryf ac yn gosod neges glir bod rhai dilyn trefniadau cynllunio a thrwyddedu os am sefydlu busnes

Mr Robert Kennedy

- Er bod bwyty gweithredol ar y safle - pryderon sŵn a diogelwch wedi codi
- Bod y ffordd yn brysur gyda cherddwyr yn cael eu gorfodi i gerdded ar y ffordd
- Byddai caniatáu bwyty trwyddedig yn gwaethygu'r' sefyllfa
- Bod angen mwy o wybodaeth am sefyllfa'r tanciau petrol
- Bod y safle yn un peryglus – damwain yn anochel
- Byddai caniatáu yn tanseilio'r pedwar amcan trwyddedu

Mrs Margot Jones

- Bod y safle yn cynnwys amryw o 'adeiladau' – podiau gwydr, faniau bwyd a chynhwysyddion ar gyfer storio
- Byddai modd cynnal 100 o bobl ar y safle – y safle yn anaddas ar gyfer hyn
- Bod cynnydd amlwg yn yr angen am lefydd i barcio
- Bod y sefyllfa yn beryglus – damwain yn anochel – ceir, tractorau, cychod a faniau dosbarthu yn lleihau gwelededd
- Dau fwyty gerllaw - byddai datblygiad arall yn ychwanegu at yr hyn sydd eisoes yn beryglus

Yn manteisio ar y cyfle i gloi ei hachos, nododd y Rheolwr Trwyddedu y pwyntiau canlynol:

- Er yr ymateb gan yr ymgeisydd, risgiau diogelwch yn parhau
- Nad oedd modd rheoli'r holl agweddau
- Damwain yn anorfod

Yn manteisio ar y cyfle i gloi ei achos, nododd yr ymgeisydd y pwyntiau canlynol:

- Ei fod yn barod i gyfaddawdu
- Ei fod yn derbyn y sylwadau ac yn barod i fynd tu hwnt i'r hyn sydd angen
- Mai gweithgaredd dros yr Haf yn unig ydyw
- Bod posib cywiro'r drefn, ystyried y cais a derbyn amodau hyd ddiwedd Medi

- Ei fod wedi cyfarfod rhai o'r ymatebwyr ac wedi trafod eu pryderon
- Nad yw cwsmeriaid yn cyrraedd gyda char ac felly nid yw parcio yn berthnasol
- Bod dogfennaeth ar gael ynglŷn â'r tanciau petrol sydd yn nodi dim risg i bobl nac i'r amgylchedd
- Siomedig fuasai peidio caniatáu - ymwelwyr o blaid y lleoliad

Ymneilltuodd yr ymgeisydd, yr ymatebwyr a'r Rheolwr Trwyddedu o'r cyfarfod tra bu i'r Is-bwyllgor drafod y cais

Wrth gyrraedd y penderfyniad ystyriodd yr Is-bwyllgor ffurflen gais yr ymgeisydd, sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y partïon â diddordeb, adroddiad y Rheolwr Trwyddedu ynghyd â sylwadau llafar pob parti yn bresennol yn y gwrandawiad. Ystyriwyd Polisi Trwyddedu'r Cyngor a chanllawiau'r Swyddfa Gartref. Roedd yr holl ystyriaethau yn cael eu pwyso a'u mesur yn erbyn yr amcanion trwyddedu o dan y Ddeddf Trwyddedu 2003, sef:

i. Atal trosedd ac anhrefn
ii. Atal niwsans cyhoeddus
iii. Sicrhau diogelwch cyhoeddus
iv. Gwarchod plant rhag niwed

Diystyrwyd sylwadau ddaeth i law i'r graddau eu bod yn amherthnasol i'r amcanion hyn. Diolchwyd i bawb am gyflwyno sylwadau ar y cais. Rhoddodd yr Is-bwyllgor ystyriaeth briodol i'r holl sylwadau.

**PENDERFYNWYD gwrthod y cais**

Rhoddwyd ystyriaeth arbennig i'r canlynol.

Derbyniwyd sylwadau gan Heddlu Gogledd Cymru. Nid oedd ganddynt dystiolaeth o broblemau o safbwynt trosedd ac anhrefn, ond roedd ganddynt bryderon o safbwynt Diogelwch y Cyhoedd ac Atal Plant rhag Niwed. Yn benodol roeddynt yn pryderu nad oedd y mesurau a awgrymwyd yn sicrhau gwahaniad digonol rhwng yr ardal fwyta a gweithgareddau busnes cychod Land and Sea; bod plant yn chwilfrydig yn ôl natur, ac y byddai cychod a thractorau yn atyniad iddynt; bod alcohol yn effeithio ar allu oedolion i farnu pellter a chyflymder cerbydau, gyda'r lleoliad mor agos at fusnes prysur a'r brif ffordd i mewn i Abersoch.

Derbyniwyd sylwadau gan Uned Rheolaeth Datblygu Cynllunio Cyngor Gwynedd yn nodi fod caniatâd Cynllunio eisoes wedi ei wrthod ar gyfer datblygiad cyffelyb ar y safle yn 2021. Eglurwyd fod y datblygiad diweddaraf yn ei hanfod yr un peth a'r hyn a wrthodwyd yn 2021 ac mai un o'r prif resymau dros wrthod oedd pryderon o safbwynt diogelwch y cyhoedd o ganlyniad i brysurdeb y busnes a'i leoliad ger ffordd fawr. I gyrraedd y safle byddai rhaid i gwsmeriaid groesi mynedfa lydan iawn neu, os i groesi o'r palmant ar yr ochr arall i'r ffordd roedd rhaid croesi ffordd brysur iawn heb balmant yr ochr arall.

Derbyniwyd sylwadau gan Uned Gorfodaeth Cynllunio Cyngor Gwynedd yn cadarnhau eu bod yn y broses o gychwyn camau gorfodaeth ffurfiol i atal y defnydd di-ganiatâd cyfredol. Cadarnhawyd yn y gwrandawiad bod yr ymgeisydd erbyn hyn wedi cyflwyno cais cynllunio ar gyfer newid defnydd dros dro i ganiatáu lleoli'r faniau yn y safle presennol.

Derbyniwyd sylwadau gan Uned Iechyd a Diogelwch Gwarchod y Cyhoedd Cyngor Gwynedd yn gwrthwynebu'r cais gan nad oedd y bwriad yn cyd-fynd gyda'r amcan trwyddedu o sicrhau diogelwch cyhoeddus. Nodwyd er bod yr ymgeisydd wedi cymryd camau i geisio gwella'r sefyllfa, nad oedd hyn yn newid y ffaith bod Land and Sea yn

parhau i ddefnyddio'r ffyrdd o amgylch y safle, ac nad oedd modd newid y cyfeiriad a'r llif sylfaenol yma. Gyda'r busnes wedi ei leoli oddi fewn i iard gychod prysur, nid oedd modd ei gymharu â busnesau tebyg yn Abersoch. Nid oedd yr Asesiad Risg a'r mesurau lliniaru a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd yn eu barn hwy yn ddigonol i warchod staff a chwsmeriaid. Datganwyd pryder fod potensial i nifer sylweddol o bobl ymgynnull tu allan i Abersoch Land and Sea o dan ddylanwad alcohol.

Derbyniwyd sylwadau gan Uned Llygredd - Gwarchod y Cyhoedd Cyngor Gwynedd. Nodwyd bod yr ymgeisydd bellach wedi peidio chwarae cerddoriaeth a bod hynny yn ymateb i un o'r pryderon o safbwynt atal niwsans cyhoeddus. Serch hynny, ystyriwyd y byddai nifer sylweddol o bobl yn ymgynnull yn yr awyr agored (fyddai yn cynnwys nifer dan ddylanwad alcohol), yn achosi llygredd sŵn i'r trigolion cyfagos a chadarnhawyd bod cwynion sŵn yn cael ei achosi gan y cwsmeriaid wedi eu derbyn.

Derbyniwyd sylwadau a gwrthwynebiad i'r cais gan Uned Trafnidiaeth Cyngor Gwynedd gan nad oedd yr ymgeisydd wedi cyfarch unrhyw un o'r pryderon a nodwyd pan wrthwynebwyd y cais cynllunio ar y safle am ddatblygiad cyffelyb yn 2021. Ystyriwyd y byddai'r datblygiad arfaethedig yn debygol o ddenu nifer o bobl i ymgynnull yn agos i'r ffordd fawr, ac y byddai hynny yn effeithio ar weledeedd ar gyfer trigolion a chwsmeriaid yn gadael safle busnes cychod Land and Sea. Nodwyd hefyd y byddai cyfyngder y safle yn debygol o arwain at griwiau o gwsmeriaid yn ymgynnull o gwmpas y safle fyddai'n arwain at broblemau diogelwch y ffordd. Ymhellach, nodwyd y byddai diffyg parcio ar y safle yn debygol o achosi problemau parcio pellach (ar y ffordd fawr) gan danseilio diogelwch cerddwyr a gyrwyr cerbydau.

Derbyniwyd sylwadau Gyngor Cymuned Llanengan yn gwrthwynebu'r cais ar y sail y byddai'n arwain at ymddygiad gwrth gymdeithasol; pryderon am ddiogelwch fel canlyniad i'w leoliad wrth gyffordd brysur, ffordd mynediad i stadau tai, a dau fwyty arall; niwsans sŵn i drigolion, a'r perygl i blant a fyddai'n defnyddio'r safle gyda'u teuluoedd i groesi yn ôl ac ymlaen i'r traeth.

Derbyniwyd e-byst gan drigolion lleol yn gwrthwynebu'r cais am drwydded gyda phryderon mewn perthynas â'r pedwar amcan trwyddedu, oedd yn cynnwys:

- Byddai gweini alcohol yn arwain at ymddygiad gwrth gymdeithasol
- Bod y lleoliad ar gornel beryglus gyda mynediad i sawl busnes gan gynnwys busnes cychod Land and Sea yn ogystal â dau fwyty.
- Bod mynediad a'r droed i'r lleoliad yn beryglus gan ei fod ar gyffordd brysur a bod tractorau yn mynd yn ôl ac ymlaen o'r lleoliad trwy'r dydd yn tynnu trelars a chychod yn ôl ac ymlaen i'r traeth.
- Byddai mwy o bobl yn parcio yn anghyfreithlon ac yn beryglus.
- Byddai sŵn o safle awyr agored fel hyn yn amharu ar drigolion cyfagos.
- Byddai cynnydd ym mhrysurdeb y lleoliad yn cynyddu'r risg o ddamwain ffordd

Ystyriaeth o'r dystiolaeth yng nghyd-destun yr amcanion trwyddedu:

Atal Trosedd ac Anhrefn
Codwyd pryder y byddai cynnydd mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol. Serch hynny, roedd yr Heddlu wedi cadarnhau nad oedd ganddynt unrhyw dystiolaeth o broblemau trosedd ac anhrefn i wrthwynebu cais ac ni chyflwynwyd tystiolaeth gan unrhyw un arall a gyflwynodd sylwadau. Ar sail diffyg tystiolaeth i gefnogi'r pryderon hyn, ac yn arbennig diffyg gwrthwynebiad gan yr Heddlu, nid oedd yr Is-bwyllgor wedi ei berswadio y byddai rhoi'r drwydded yn tanseilio'r amcan o atal trosedd ac anrhefn.

Diogelwch y Cyhoedd
Rhoddodd yr Is-bwyllgor ystyriaeth ofalus i farn arbenigol y swyddogion proffesiynol y

byddai caniatáu'r cais yn tanseilio'r amcan trwyddedu yma. Roedd y swyddogion yn bendant eu barn bod lleoliad a natur y safle, a'r ffaith y byddai'n cael ei rannu gyda busnes cadw arwain at sefyllfa beryglus. Rhoddwyd cryn sylw i'r farn yma oherwydd bod amryw o adrannau gwahanol o fewn y Cyngor wedi cyflwyno barn mewn modd cyson a chryf. Roedd yr is-bwyllgor felly yn pryderu am ddiogelwch staff a chwsmeriaid y busnes yn ogystal â defnyddwyr cyffredinol y ffordd o ganlyniad i'r gweithgareddau. Rhoddwyd ystyriaeth ofalus hefyd felly i'r mesurau roedd yr ymgeisydd eisoes wedi cymryd, a'r rhai hynny yr oedd yn cynnig eu rhoi mewn lle i geisio lliniaru'r risgiau. Er bod yr Is-bwyllgor yn nodi ac yn gwerthfawrogi'r bwriad o wneud y newidiadau ni ystyriwyd y byddai modd cyfarch y pryderon yn ddigonol gan na fyddai'r mesurau hynny yn goresgyn y problemau sylfaenol oedd yn cael eu creu gan natur a lleoliad y safle a'i ddefnydd.

Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
Derbyniwyd bod yr ymgeisydd wedi peidio chwarae cerddoriaeth, serch hynny, ar sail y farn a'r dystiolaeth a gyflwynwyd ( gan gynnwys cwynion oedd wedi eu derbyn) roedd yr is-bwyllgor o'r farn y byddai niwsans o ganlyniad i sŵn yn anorfod ar drigolion cyfagos oherwydd natur agored a lleoliad y safle a'i agosatrwydd at dai cyfagos.

Amddiffyn Plant Rhag Niwed
Roedd pryderon o safbwynt diogelwch y cyhoedd yn gyffredin i bawb. Er hynny, gyda phlant yn bresennol gyda'u teuluoedd yn mynd ac yn dod o'r traeth, ynghyd â'r ffaith y byddai tractorau yn tynnu cychod yn ôl ac ymlaen, ac y gallai hyn fod yn atyniadol iddynt, yn amlygu risgiau penodol o dan y pennawd yma.

O ganlyniad, roedd yr Is-bwyllgor o'r farn y byddai caniatáu'r cais yn tanseilio tri allan o'r 4 amcan trwyddedu, ac felly gwrthodwyd y cais.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i bawb oedd wedi cyflwyno sylwadau ysgrifenedig. Ategwyd bod gan bob parti i'r cais yr hawl i gyflwyno apêl yn Llys Ynadon Caernarfon yn erbyn penderfyniad yr Is-bwyllgor. Dylid cyfeirio unrhyw apêl o'r fath drwy roi rhybudd o apêl i'r Prif Weithredwr, Llys Ynadon Llandudno, Llandudno, o fewn cyfnod o 21 diwrnod gan gychwyn â'r dyddiad y bydd yr apelydd yn derbyn llythyr (neu gopi ohono) yn cadarnhau'r penderfyniad.

**5. Caffi Llew Glas, 3, Plas y Goits, Stryd Fawr, Harlech**

**Ar ran yr eiddo:** Ms Harriet Brown (ymgeisydd)

**Ymatebwyr:** Mr Dafydd Thomas (Swyddog Cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri)

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y Cadeirydd y byddai gan bob parti hawl i hyd at 5 munud i gyflwyno eu sylwadau

b) **Adroddiad yr Adran Trwyddedu**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu ar gais am drwydded eiddo ar gyfer caffi / bar lluniaeth ysgafn gyda lle i fwyta tu mewn a thu allan i'r eiddo.

Nodwyd bod gan Swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu tystiolaeth ddigonol bod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol. Cyfeiriwyd at y mesurau yr oedd yr ymgeisydd yn ei argymell i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu ac amlygwyd y byddai'r mesurau hyn yn cael eu cynnwys ar y drwydded.

Tynnwyd sylw at yr ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori. Nodwyd bod Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn gwrthwynebu'r cais oherwydd ei fod yn groes i hawliau cynllunio cais rhif NP5-61-T2E-DN ond petai'r ymgeisydd yn addasu oriau i gydymffurfio gydag amodau'r cais byddai'n dderbyniol

Argymhellwyd i'r Pwyllgor ganiatáu y cais yn unol â sylwadau Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a gofynion Deddf Drwyddedu 2003 ac am y rhesymau isod yn benodol:

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

- Rhoi cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu
- Gwahodd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais
- Rhoi cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded.
- Rhoi cyfle i'r Rheolwr Trwyddedu ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded
- Rhoi cyfle i'r ymgynghorai gefnogi unrhyw sylwadau ysgrifenedig
- Gwahodd y Rheolwr Trwyddedu a'r ymgeisydd i ymateb i'r sylwadau a chrynhoi eu hachos

Nodwyd siom nad oedd barn wedi ei dderbyn gan Cyngor Cymuned Harlech ac y byddai cynnwys lluniau o'r eiddo a / neu luniau o'r sgwâr / stryd wedi bod yn fanteisiol.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag argymhelliad yr Uned Trwyddedu, cadarnhawyd mai yn unol â sylwadau Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yr oeddynt yn argymell caniatáu y cais ac nid yn unol â sylwadau Gwarchod y Cyhoedd fel y nodwyd yn yr adroddiad.

Wrth ymhelaethu ar y cais, nododd yr ymgeisydd:

- Mai menter fechan, ysgafn oedd ganddi dan sylw
- Nad oedd am fentro gyda rhywbeth mwy oherwydd anodd recriwtio staff
- Yn hapus i addasu'r oriau agor i gyd-fynd a'r cais cynllunio

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â sut roedd yr ymgeisydd yn bwriadu tawelu pryderon sŵn i'r dyfodol, nododd nad oedd bwriad ganddi gynnal adloniant na nosweithiau hwyr. Ategodd bod ei thad yn byw yn y fflat uwchben ac yn feirniadol o unrhyw sŵn! Nododd hefyd bod y staff wedi eu hyfforddi i ddelio gyda chwsmeriaid annymunol.

Manteisiodd yr ymgynghorai oedd yn bresennol ar y cyfle i ymhelaethu ar sylwadau a gyflwynwyd ganddynt drwy lythyr.

Mr Dafydd Thomas (Swyddog Cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri)

- Bod y cais wedi ei wrthod oherwydd yn groes i amodau cais cynllunio
- Yn derbyn bod yr ymgeisydd wedi cytuno i newid yr oriau
- Os defnydd o'r ardal tu allan bydd angen cyflwyno cais cynllunio i addasu amod

Cyng. Annwen Hughes (Aelod Lleol) – dim sylwadau ac wedi datgan buddiant oherwydd ei bod yn Gadeirydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Cyng. Gwynfor Owen (Aelod Lleol) - sylwadau wedi eu cyflwyno drwy e-bost tu allan i'r cyfnod ymgynghori:

- Ymddiheuro nad oedd yn gallu bod yn bresennol
- Yn cefnogi'r cais
- Bod y perchennog wedi buddsoddi yn helaeth yn y busnes yma ynghyd a gweddill sgwâr Llew Glas. Yr ymgeisydd yn wraig busnes sydd am greu rhywbeth a naws

arbennig amdano yn ganol Harlech - y cais yma yn gorwedd yn daclus yn y cynlluniau hynny.
- Yn credu y bydd yr ymgeisydd yn gwneud yn siŵr y bydd yn cydymffurfio a phopeth i sicrhau busnes llwyddiannus.

Ymneilltuodd yr ymgeisydd, yr ymatebwyr a'r Rheolwr Trwyddedu o'r cyfarfod tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais

Wrth gyrraedd y penderfyniad ystyriodd yr Is-bwyllgor ffurflen gais yr ymgeisydd, sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y partïon â diddordeb, adroddiad y Swyddog Trwyddedu ynghyd â sylwadau llafar pob parti yn bresennol yn y gwrandawiad. Ystyriwyd Polisi Trwyddedu'r Cyngor a chanllawiau'r Swyddfa Gartref.

Roedd yr holl ystyriaethau yn cael eu pwyso a'u mesur yn erbyn yr amcanion trwyddedu o dan y Ddeddf Trwyddedu 2003, sef:

i. Atal trosedd ac anhrefn
ii. Atal niwsans cyhoeddus
iii. Sicrhau diogelwch cyhoeddus
iv. Gwarchod plant rhag niwed

Diystyrwyd sylwadau ddaeth i law i'r graddau eu bod yn amherthnasol i'r amcanion hyn. Diolchwyd i bawb am gyflwyno sylwadau ar y cais. Rhoddodd yr Is-bwyllgor ystyriaeth briodol i'r holl sylwadau.

**PENDERFYNWYD caniatáu y cais**

**Rhoddir trwydded fel a ganlyn:**

| | |
|---|---|
| **1. Oriau agor** | **Sul-Sadwrn: 09:00 – 19:00** |
| **2. Cyflenwi alcohol i yfed ar ac oddi ar yr eiddo:** | **Sul-Sadwrn: 11:00 – 18:30** |

**3. Ymgorffori'r materion sydd wedi eu rhagnodi yn Atodlen Weithredol (Rhan M) y cais fel amodau ar y drwydded**

Rhoddwyd ystyriaeth arbennig i'r canlynol.

Nid oedd gan Adran Gwarchod y Cyhoedd, Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru sylwadau i'w gwneud ac nid oedd gan Heddlu Gogledd Cymru dystiolaeth i wrthwynebu'r cais.

Derbyniwyd sylwadau gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn gwrthwynebu'r cais ar y sail nad oedd y cais yn cyd-fynd gyda'r oriau agor a ganiatawyd o dan y caniatâd cynllunio presennol sef rhwng 08.00 a 19:00. Cadarnhaodd yr ymgeisydd yn ysgrifenedig ymlaen llaw ac ar lafar yn y gwrandawiad y byddai'n fodlon diwygio'r cais fel ei fod yn cyd-fynd gyda'r caniatâd presennol h.y. bod cyflenwi alcohol yn dod i ben am 18:30 gyda'r eiddo'n cau i'r cyhoedd am 19:00.

Roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod y cais fel yr addaswyd ef yn gydnaws â'r pedwar amcan trwyddedu, ac felly fe ganiatawyd y cais.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00 a daeth i ben am 12:40